Cynllun CAFCASS Cymru ar gyfer Cyfranogi gyda Phlant a Phobl Ifanc

# Dy Lais

2016-2019



Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
Children and Family Court Advisory and Support Service

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae CAFCASS Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru

CAFCASS Cymru is part of the Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

Rhagair 3

Pwy ydym ni a beth yw ein gwaith 4

Beth yw cyfranogi a beth mae'n ei olygu i ni? 5

Sut fyddwn ni'n cyfranogi 6

Safonau cyfranogi 7

Tri maes ffocws:

1. Gwrando a Dysgu 8
2. Cynnwys a Hysbysu 9
3. Cydweithio a Rhannu 10

Camau gweithredu, canlyniadau a mesur llwyddiant:

Gwrando a Dysgu 11

Cynnwys a Hysbysu 12


Cydweithio a Rhannu 13

ISBN digidol 978-1-4734-5812-3
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25173

# Rhagair

Mae cefnogi plant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig ag achos Llys Teulu i sicrhau'r canlyniadau gorau iddyn nhw wrth wraidd ein sefydliad. Rwy'n falch dros ben o'n staff sy'n gweithio ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc er mwyn ceisio datrys y problemau sy'n wynebu llawer o blant agored i niwed yn ein gwlad.





Gillian Baranski
Prif Weithredwr


Dyna pam rwy'n falch o lansio Cynllun Cyfranogi Dy Lais. Bydd y cynllun hwn yn galluogi'r sefydliad i adeiladu ar y cysylltiadau bob dydd rhwng ein staff a phlant a phobl ifanc, gan roi cyfle i'r bobl ifanc hynny ddylanwadu ar y modd mae nhw, a phlant y dyfodol, yn derbyn ein gwasanaethau. Mae maes Gwrando a Dysgu y rhaglen yn ategu ac yn adlewyrchu ein dull o wella ein gwasanaethau gyda'r nod o wneud newidiadau pwysig a phriodol i'n ffordd o weithio.

Mae angen ymateb cydgysylltiedig rhwng y llywodraeth, ein sefydliadau partner a chymunedau i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu plant agored i niwed yng Nghymru. Mae ein dyhead i adeiladu ar y gwaith gwych a gyflawnwyd eisoes yn y maes hwn wedi'i ffurfioli gydag athroniaeth "cydweithio a rhannu" gan ddylanwadu ar yr arferion gorau sy'n ymwneud â llais y plentyn yn y system cyfiawnder teuluol.

Ar ôl bod trwy gryn newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf, rydym bellach yn sefydliad symlach gyda thîm rheoli sydd wedi ennill ei blwyf a chyfres o werthoedd a blaenoriaethau clir a chyfoes ar gyfer gwella ein gwasanaeth a'n perfformiad.

Er mwyn ymateb i'r her o gyflawni ein blaenoriaethau a pharhau i adeiladu ar ein henw da am ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar ein defnyddwyr gwasanaethau, rydym yn ymrwymo i gyflwyno elfen "Cynnwys a Hysbysu" ein Rhaglen Gyfranogi, gweithio'n galed i weithredu'r cynllun heriol hwn, gan wella ac ategu ein cenhadaeth o sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

# Pwy ydym ni a beth yw ein gwaith




Ni yw CAFCASS Cymru, rydym yn rhan o Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

gcclbt cymru cafcass
Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
Children and Family Court Advisory and Support Service

Ein rôl yw cefnogi plant a theuluoedd sy'n gysylltiedig ag achosion Llys Teulu trwy gynghori'r llys ar ba gam gweithredu sydd orau er lles plant unigol yn ein barn ni.

Mae lles y plentyn wrth wraidd pob penderfyniad a cham a gymerwn. Rydym yn cyfranogi ac yn ymgysylltu â phlant er mwyn dysgu am eu teimladau a'u dymuniadau fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hystyried wrth gynghori'r llysoedd.

Ein nod yw diogelu plant a sicrhau bod ganddyn nhw lais sy'n cael ei glywed yn y System Cyfiawnder Teuluol.



# Beth yw cyfranogi a beth mae'n ei olygu i ni ?

Ffordd o helpu plant a phobl ifanc i ddweud eu dweud a chael eu cymryd o ddifrif yw cyfranogi.

Mae cyfranogi sefydliadol yn golygu adeiladu ar ein gwaith uniongyrchol gyda phlant unigol mewn achosion Llys Teulu. Mae'n golygu y gallwn ni, fel sefydliad, sicrhau bod gan blant a phobl ifanc:

- lais o ran sut mae nhw'n derbyn ein gwasanaethau ni.
- y cyfle i fynegi barn, pryderon ac awgrymiadau ar sut mae'r sefydliad yn cael ei reoli, a bod eraill yn eu cymryd o ddifrif.

Ein nod yw sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc y down i gysylltiad â nhw a sicrhau bod y system cyfiawnder teuluol yn gwrando ar leisiau plant. Mae cyfranogi yn helpu i wireddu hyn trwy wneud gwelliannau cynaliadwy a phosibl i'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i blant fel eu bod:

- yn effeithiol
- yn briodol
- yn cael eu deall yn well o'r herwydd
- yn cael eu derbyn yn well gan blant a phobl ifanc.

Mae'r Cynllun Cyfranogi yn cynnwys tri maes ffocws penodol:

1. Gwrando a Dysgu
2. Cynnwys a Hysbysu
3. Gweithio a Rhannu ar y Cyd.

Trwy wneud hyn mewn ffordd ystyrlon, agored a pharchus, gan gynnwys plant a phobl ifanc ymhob un o'n tri maes ffocws, byddwn yn sicrhau gwelliannau cynaliadwy a phosibl i'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.



"Mae cyfranogi'n golygu bod gen i hawl i gymryd rhan yn y broses benderfynu, cynllunio ac adolygu rhywbeth a allai effeithio arna i."


- person ifanc a helpodd i greu'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

# Sut fyddwn ni'n cyfranogi

Dim ond megis dechrau mae'n taith tuag at gyfranogi, a hoffem sicrhau ei fod yn gwneud gwahaniaeth. Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, byddwn yn cymryd rhan mewn rhaglen tair blynedd o brosiectau sydd o les i'r plant a phobl ifanc y down i gysylltiad â nhw.


**Y Rhaglen Gyfranogi fydd enw'r grŵp o brosiectau hyn.**

Yn ystod y Rhaglen, bydd lefelau gwahanol o gyfranogi yn berthnasol i brosiectau gwahanol, yn dibynnu ar nod y prosiect hwnnw a'r amser ac adnoddau sydd ar gael.



# Safonau Cyfranogi

Mae cyfranogi a chyfraniad llawn plant a phobl ifanc yn thema bwysig yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).



Fel gwlad, rydym yn falch o fod wedi cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ein deddfau, a thrwy ddulliau gwahanol o gyfranogi, byddwn yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i fanteisio ar eu hawliau, gan helpu i wneud newidiadau parhaol er mwyn galluogi mwy o blant i wneud yr un fath.

Bydd y saith o Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn rhan bwysig o'n holl brosiectau cyfranogi. Dyma'r Safonau:

1. Gwybodaeth
2. Dy Ddewis Di
3. Dim Gwahaniaethu
4. Parch
5. Byddi di ar dy ennill
6. Adborth
7. Gwella'r ffordd rydym yn gweithio

Rydym yn ymrwymo'n llawn i hyrwyddo'r UNCRC a galluogi plant a phobl ifanc Cymru i fanteisio ar eu hawliau.

Er mwyn cadw golwg ar ba hwyl rydym yn ei gael o ran bodloni'r Safonau Cyfranogi, byddwn yn gofyn i bobl ifanc medrus asesu hynny bob blwyddyn. Bydd canlyniadau'r asesiad yn ogystal â chyfraniad gan blant a phobl ifanc, yn helpu i lywio gwaith y Rhaglen Gyfranogi yn y dyfodol.



# Gwrando a Dysgu

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i rannu eu barn a'u safbwyntiau am ein gwasanaethau, ac yn gallu helpu i'w rhoi ar waith.

I sicrhau bod y newidiadau a wnawn yn canolbwyntio ar y plant a'r bobl ifanc rydym yn eu helpu; rhaid i ni wrando ar eu barn a dysgu oddi wrthynt. Mae angen i ni ddarparu dulliau gwahanol o gasglu barn a safbwyntiau plant a phobl ifanc, a'u cefnogi a'u hannog i rannu eu profiad o ddefnyddio ein gwasanaeth. Bydd hyn yn ein helpu i ddysgu o brofiad fel y gallwn wneud gwelliannau.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- ystyried sut i gefnogi a chynnwys plant a phobl ifanc i fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarparwn
- adolygu'r modd y gall plant a phobl ifanc fynegi barn am y sefydliad a'r gwasanaethau a gawsant gan ddefnyddio eu hoff ddulliau
- cynnwys ac ymgysylltu â nifer priodol o blant a phobl ifanc yn ystod y rhaglen trwy neilltuo amser ac adnoddau i gynnal digwyddiadau cyfranogi ledled Cymru
- rhoi gwybod yn rheolaidd i blant a phobl ifanc am unrhyw newidiadau a wnawn yn sgil eu cyfraniad nhw.

Dyma sut yr awn ati:

- cynnwys plant a phobl ifanc wrth adolygu mannau cyhoeddus ein swyddfeydd
- adolygu a gwella'r modd y gall plant a phobl ifanc fynegi barn am ein gwasanaeth
- ystyried sut gallwn ni gynnwys plant a phobl ifanc wrth recriwtio a dethol ein staff
- ystyried sut gallwn ni gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu ein staff
- cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu adnoddau gwaith asesu uniongyrchol i sicrhau eu bod nhw'n addas
- gofyn i blant a phobl ifanc adolygu ein gwasanaeth yn erbyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru gyda'r nod o fodloni mwy a mwy o'r amodau bob blwyddyn.

Mae gan bawb gyfle i ddweud eu dweud, mae'ch safbwyntiau yn bwysig, a byddwn yn eu parchu.

- Safon 4, Parch, Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Rydym am i chi fwynhau ac elwa ar gymryd rhan.

- Safon 5, Byddi di ar dy ennill, Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad

Mae'n hollbwysig eich bod chi'n gwybod pa wahaniaeth wnaethoch chi, a sut y defnyddiwyd eich syniadau.

- Safon 3, Dim gwahaniaethu, Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad

# Cynnwys a Hysbysu

Cynnwys plant a phobl yn y broses o ddatblygu gwybodaeth sy'n benodol i'w hanghenion nhw.

Mae'r modd rydym ni'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn ganolog i'n gwaith. Mae angen i ni gynnwys y plant a'r bobl ifanc hyn i'r eithaf wrth ddatblygu gwybodaeth am ein gwasanaeth fel ei bod yn benodol i'w hanghenion a'u dymuniadau nhw. Byddwn yn gofyn i blant a phobl ifanc pa wybodaeth yr hoffent ei chael a sut mae nhw am gyfathrebu gyda'r sefydliad.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- ychwanegu gwerth at ein gwybodaeth i blant a phobl ifanc trwy eu cynnwys nhw wrth ddatblygu a diweddaru ein negeseuon
- ystyried y defnydd o dechnolegau newydd er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael gafael ar wybodaeth yn y ffordd o'u dewis
- ystyried sut gallwn ni gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu ein staff
- creu rhestr 'deall y jargon' er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddeall y termau a ddefnyddir ym mhrosesau CAFCASS Cymru
- archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu negeseuon y sefydliad.

Dyma sut yr awn ati:

- cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu fersiwn hawdd ei deall o'r cynllun hwn
- diweddaru'r wybodaeth ar ein gwefan i'w gwneud yn fwy perthnasol a diddorol
- datblygu ein gwefan i gynnwys elfennau newydd er mwyn i blant a phobl ifanc allu cael gafael ar wybodaeth yn gynt, yn haws, ac yn y ffordd o'u dewis
- ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o rannu negeseuon y sefydliad
- hyrwyddo'r UNCRC a helpu mwy o blant a phobl ifanc i wybod eu hawliau
- datblygu a hyrwyddo'r dulliau y gall plant a phobl ifanc eu defnyddio i gyfathrebu â llunwyr penderfyniadau ynglŷn â'u hachos nhw
- cofnodi, monitro a rhannu data ar y nifer o blant a phobl ifanc sy'n cysylltu â'r Farnwriaeth yn ystod eu hachos.

Gwybodaeth sy'n hawdd i bawb ei deall.

- Safon 1, Gwybodaeth, Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad

Eich dewis chi yw cymryd rhan neu beidio.

- Safon 2, Eich dewis chi, Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad

# Cydweithio a Rhannu

Sefydliad sy'n hyrwyddo cyfranogi, gan gydweithio â sefydliadau priodol er mwyn rhoi rhagor o gyfle i blentyn leisio barn ac i gael ei glywed o fewn y system cyfiawnder teuluol.

Byddwn yn annog cyfleoedd i gymryd rhan ledled y sefydliad trwy ddathlu a hyrwyddo enghreifftiau o gyfranogi da. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau partner er mwyn cyfnewid gwybodaeth a dylanwadu ar arferion gorau ynghylch llais y plentyn o fewn y system cyfiawnder teuluol.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- cofleidio a chefnogi diwylliant o gymryd rhan o fewn y sefydliad
- cydweithio â sefydliadau eraill er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc, pan fo newidiadau yn y system cyfiawnder teuluol yn effeithio ar ein gwasanaethau ni
- ystyried y ffordd orau o gynnwys plant a phobl ifanc wrth ymsefydlu a hyfforddi staff newydd er mwyn hyrwyddo eu dysg a'u datblygiad
- rhoi gwybod yn rheolaidd i sefydliadau partner pa waith a gwblhawyd gennym yn sgil cyfranogi, a chyfrannu at rwydwaith ehangach gweithwyr cyfranogi
- cysylltu â sefydliadau o fewn y system cyfiawnder teuluol ehangach er mwyn cael eu barn ar sut rydym yn gwneud pethau.

Hoffem ddysgu a gwella'n ffordd o weithio gyda chi.

- Safon 7, Gwella'r ffordd rydym yn gweithio, Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad

Rydym am i bawb deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn gallu cymryd rhan os ydynt yn dymuno.

- Safon 3, Dim gwahaniaethu, Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad

Dyma sut yr awn ati:

- cynnwys plant a phobl ifanc yn ein hyfforddiant ymsefydlu staff er mwyn hyrwyddo gwybodaeth ein staff newydd am gyfranogi a'r UNCRC
- cysylltu'n rheolaidd â Bwrdd Pobl Ifanc y Llys Cyfiawnder Teuluol er mwyn cryfhau ein perthynas
- bod yn ddolen gyswllt rhwng cynrychiolwyr Cymru a Bwrdd Pobl Ifanc y Llys Cyfiawnder Teuluol
- bydd Rheolwr Rhaglen Gyfranogi CAFCASS Cymru yn cwrdd â Chynghorydd Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru bob chwarter
- bydd Prif Weithredwr CAFCASS Cymru yn parhau i fod yn aelod gweithgar o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol a'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol
- byddwn yn ystyried sut gallwn ni gynyddu'r ffyrdd rydym yn hyrwyddo'r UNCRC wrth gyflwyno ein gwasanaethau
- byddwn yn ystyried sut gall ein huwch-reolwyr ymgysylltu'n fwy rheolaidd â grwpiau plant a phobl ifanc
- byddwn yn sefydlu Bwrdd Cyfranogi CAFCASS Cymru, a bydd yr aelodau'n hyrwyddo cyfranogi yn eu hardaloedd ac yn gweithredu fel llysgennad gyda sefydliadau allanol
- byddwn yn rhannu gwybodaeth am welliannau a wnaethom i'n ffordd o weithio, gyda'n Pwyllgor Cynghori a'n rhanddeiliaid ehangach yn rheolaidd.

# Camau gweithredu, canlyniadau a mesur llwyddiant

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi sut rydym ni'n bwriadu gwneud y pethau a nodwyd yn y cynllun hwn, beth fyddwn ni'n ei wneud a'r effaith y gobeithiwn ei chael. Byddwn yn adolygu'r strategaeth hon bob blwyddyn ac yn gofyn i blant a phobl ifanc asesu pa hwyl rydym yn ei gael o gymharu â'n camau gweithredu, ein canlyniadau a'n mesurau llwyddiant.

## Gwrando a Dysgu

Ein nod – Mae plant a phobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i rannu eu sylwadau a'u safbwyntiau ac yn gallu cyfrannu at eu rhoi ar waith.

| **Camau gweithredu** |
|---|
| • Byddwn yn ymchwilio i ddulliau modern ac arloesol o gefnogi plant a phobl ifanc i ddweud eu barn am ein gwasanaeth gan gofnodi eu hawgrymiadau ar sut allwn ni wella. |
| • Byddwn yn datblygu ffordd o gynnwys plant a phobl ifanc er mwyn asesu ein mannau cyhoeddus a datblygiadau staff priodol. |
| • Byddwn yn cynnwys ac yn ymgysylltu â nifer priodol o blant a phobl ifanc yn ystod y rhaglen trwy neilltuo amser ac adnoddau i gynnal digwyddiadau cyfranogi ledled Cymru. |
| • Byddwn yn rhoi gwybod yn rheolaidd i blant a phobl ifanc am unrhyw newidiadau a wnawn yn sgil eu cyfraniad nhw. |
| • Byddwn yn cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu adnoddau gwaith asesu uniongyrchol er mwyn sicrhau eu bod yn addas. |
| • Byddwn yn gofyn i blant a phobl ifanc adolygu ein cyfraniad yn erbyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogi yng Nghymru. |

| **Canlyniadau a mesurau llwyddiant** | **gan** |
|---|---|
| • Cwblhau adolygiad o'r modd y gall plant a phobl ifanc ddweud eu barn am ein gwasanaeth ni. | Rhag 2016 |
| • Cynyddu'r dulliau gwahanol y gall plant a phobl ifanc ddweud eu barn am ein gwasanaeth ni. | Ebr 2016 |
| • Cynyddu nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cyfrannu at ein gwelliannau. | Ion 2016 |
| • Creu proses lle gall plant a phobl ifanc gyfrannu at y broses o recriwtio a dethol ein staff. | Rhag 2017 |

| | |
|---|---|
| • Cynyddu nifer yr achosion lle mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r broses o recriwtio a dethol ein staff. | Ebr 2018 |
| • Datblygu rhaglen waith sy'n cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu ein staff. | Rhag 2016 |
| • Cynyddu nifer yr achosion lle mae plant a phobl ifanc yn rhan o broses datblygu ein staff. | Rhag 2017 |
| • Datblygu proses lle gall plant a phobl ifanc adolygu mannau cyhoeddus ein swyddfeydd. | Hyd 2016 |
| • Cynyddu nifer yr adolygiadau o fannau cyhoeddus ein swyddfeydd, dan law plant a phobl ifanc. | Hyd 2017 |
| • Sicrhau bod o leiaf un grŵp o bobl ifanc yn asesu ein hadnoddau gwaith uniongyrchol. | Maw 2017 |
| • Cynnal adolygiad o nifer yr amodau a fodlonwyd dan y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogi. | Medi 2016 |
| • Cynyddu nifer yr amodau a fodlonwyd o fewn asesiadau'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogi bob blwyddyn. | Medi 2017 & 2018 |

## Cynnwys a Hysbysu

Ein nod – Mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r broses o ddatblygu gwybodaeth fel ei bod yn benodol i'w hanghenion nhw

**Camau gweithredu**

- Byddwn yn ychwanegu gwerth at ein gwybodaeth i blant a phobl ifanc trwy eu cynnwys nhw wrth ddatblygu a diweddaru ein cyfathrebu.
- Byddwn yn archwilio'r defnydd o dechnolegau newydd er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael gafael ar wybodaeth yn eu hoff ddull nhw.
- Byddwn yn ystyried sut i gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o ddatblygu ein staff.
- Ar y cyd â phlant a phobl ifanc, byddwn yn adolygu ac yn moderneiddio pecynnau gwybodaeth i blant fel bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol yn y dull o'u dewis.
- Byddwn yn llunio rhestr 'deall y jargon' er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddeall y termau a ddefnyddir ym mhrosesau CAFCASS Cymru.
- Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu negeseuon y sefydliad.

| Canlyniadau a mesurau llwyddiant | gan |
|---|---|
| • Datblygu fersiwn o'r cynllun hwn sy'n hawdd i'w ddeall gan blant a phobl ifanc. | Ebr 2017 |
| • Creu cyfle i blant a phobl ifanc gysylltu â llunwyr penderfyniadau ynglŷn â'u hachos. | Medi 2016 |
| • Creu ffordd o gofnodi, monitro a rhannu data am nifer y plant a phobl ifanc a gysylltodd â'r Farnwriaeth yn ystod eu hachos. | Ebr 2017 |
| • Cynnal adolygiad o'n pecyn gwybodaeth i blant a gwneud newidiadau priodol i'r pecyn hwnnw. | Medi 2016 |
| • Cynyddu cyfran y plant a phobl ifanc sy'n meddwl bod ein pecyn gwybodaeth i blant yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. | Rhag 2017 |
| • Datblygu ein gwefan er mwyn cynyddu nifer yr elfennau fel bod plant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn gyflym, ac fel bod y wefan yn fwy perthnasol ac atyniadol i blant a phobl ifanc. | Awst 2016 |
| • Creu rhestr 'deall y jargon' er mwyn symleiddio pob dull o gyfathrebu â phlant a phobl ifanc. | Awst 2016 |
| • Creu rhaglen waith i hyrwyddo UNCRC er mwyn helpu mwy o blant a phobl ifanc i wybod am eu hawliau. | Medi 2016 |
| • Cynyddu nifer y plant a phobl ifanc y down i gysylltiad â nhw sy'n ymwybodol o'r UNCRC ac yn gwybod beth yw eu hawliau. | Medi 2017 |

## Cydweithio a Rhannu

Ein nod – Bod yn Sefydliad sy'n hyrwyddo ac yn dathlu enghreifftiau o gyfranogi da, gan gydweithio â'r sefydliadau priodol i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed ymhellach o fewn y system cyfiawnder teuluol.

| Camau gweithredu |
|---|
| • Byddwn yn hysbysu'r sefydliadau partner yn rheolaidd am y gwaith a gwblhawyd gennym yn sgil cyfranogi ac yn cyfrannu at rwydwaith ehangach gweithwyr cyfranogi. |
| • Byddwn yn annog cyfranogi i'r eithaf trwy ddathlu a hyrwyddo enghreifftiau o gyfranogi da. |
| • Byddwn yn ystyried y ffordd orau o gynnwys plant a phobl ifanc wrth ymsefydlu staff newydd er mwyn hyrwyddo eu dysg a'u datblygiad ym meysydd cyfranogi a'r UNCRC. |
| • Byddwn yn cysylltu â sefydliadau o fewn y System Cyfiawnder Teuluol ehangach er mwyn cael eu barn ar ein ffordd o weithio. |

| Canlyniadau a mesurau llwyddiant | gan |
|---|---|
| • Sefydlu Bwrdd Cyfranogi CAFCASS Cymru – gydag aelodau a fydd yn hyrwyddwyr cyfranogi yn eu hardal ac a fydd yn gweithredu fel llysgenhadon gyda sefydliadau allanol | Ion 2016 |
| • Sefydlu pwynt cyswllt unigol CAFCASS Cymru ar gyfer Bwrdd Pobl Ifanc y System Cyfiawnder Teuluol | Ion 2016 |
| • Cynyddu sawl tro mae CAFCASS Cymru yn cwrdd â Bwrdd Pobl Ifanc y System Cyfiawnder Teuluol. | Ebr 2016 |
| • Helpu i lenwi seddi ar Fwrdd Pobl Ifanc y System Cyfiawnder Teuluol, wedi'u neilltuo'n benodol i bobl ifanc Cymru. | Meh 2016 |
| • Trefnu cyfarfodydd rheolaidd rhwng Rheolwr Rhaglen Gyfranogi CAFCASS Cymru a Chynghorydd y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol. | Ion 2016 |
| • Prif Weithredwr CAFCASS Cymru yn parhau i fod yn aelod gweithgar o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol a'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol. | Rhag 2019 |
| • Pennu proses lle mae'n huwch-reolwyr yn ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau plant a phobl ifanc. | Medi 2017 |
| • Cynyddu nifer y cyfarfodydd rhwng aelodau o'n hwch dîm rheoli a'r grwpiau plant a phobl ifanc | Medi 2018 |
| • Y rhaglen Gyfranogi yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd ein Pwyllgor Cynghori a'r tîm ardal. | Awst 2016 |

# Nodiadau

# Nodiadau

